

Fersiwn		1.1
Dyddiad Diwethaf	Diwygio	Mehefin 2011



**STAFF YR YSGOLION**  
**POLISI Ceisiadau am Ailraddio – Staff yr**  
**Ysgolion**

<b>RHEOLI DOGFENNAU</b>	
<b>ENW'R POLISI</b>	<b>Polisi Ceisiadau am Ailraddio Staff yr Ysgolion</b>
Adran	Adnoddau Dynol
Ffôn:	01443 444501 01443 444502 01443 444503
Dyddiad Cychwynol Cyflwyno'r Polisi	
Swyddog Adolygu	Richard Evans
Dyddiad adolygu	Mawrth 2012
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Ebrill 2011
<b>HANES DIWYGIO</b>	
Dyddiad	Diwygiwyd gan:
<b>CYMERADWYO'R DDOGFEN</b>	
Mae'r ddogfen hon wedi cael eu cymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Garfan Rheolwyr Adnoddau Dynol	Mai 2011
Carfan Rheolwyr Corfforaethol	Ddim yn berthnasol
Y Cabinet	Ddim yn berthnasol

## CYNNWYS

	Tudalennau
1. Datganiad Polisi	1
2. Meini Prawf Ceisiadau am Ailraddio	1
3. Gweithdrefn Ceisiadau am Ailraddio	1
4. Panel Adolygu Ailraddiadu	2
5. Penderfyniad y Panel Adolygu Ailraddiadu	3
6. Atodiad 1 - Ffurflen Gais am Ailraddio	4 – 7
6. Atodiad 2 – Gweithdrefn Adolygu Ceisiadau	8

## 1. **DATGANIAD POLISI**

Ar y cyd â'r Undebau Llafur, mae'r Cyngor wedi cytuno i weithredu Polisi Ceisiadau am Ailraddio.

Mae'r Cyngor, a'r Undebau Llafur, ill dau yn cytuno, er y gall y dyletswyddau penodol sy'n gysylltiedig â swydd amrywio dros amser, na fydd hyn o reidrwydd yn arwain at newid sylweddol yn lefel y cyfrifoldebau, neu yng nghymeriad cyffredinol y dyletswyddau perthnasol dan sylw. Mae'n gyffredin i'r fath amrywiadau ddigwydd, ac dydyn nhw ddim yn rhoi unrhyw gyfiawnhad dros ailraddio swydd.

Serch hynny, mewn achosion lle bu newid sylweddol yn nyletswyddau a chyfrifoldebau swydd benodol, a bod y raddfa heb gael ei newid i adlewyrchu hyn, a bod y gweithiwr perthnasol dan sylw yn anfodlon ar y penderfyniad o ran graddfa'r swydd honno, bydd modd gwneud cais am adolygiad gan ddefnyddio'r weithdrefn ganlynol.

## 2. **MEINI PRAWF CEISIADAU AM AILRADDIO**

Rhaid i bob cais am ailraddio swydd gynnwys tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd dan sylw, cyn mynd ymlaen i'r cam Panel Adolygu.

## 3. **AILRADDIO - CAM ADOLYGIAD FFURFIOL**

Os bydd unrhyw weithwyr yn dymuno gwneud cais am ailraddio swydd, rhaid iddyn nhw lenwi'r ffurflen gais yn Atodiad 1, gan nodi a ydyn nhw'n gwneud cais fel unigolyn, neu fel grŵp.

Rhaid defnyddio'r amserlenni canlynol bob amser wrth gyflwyno ceisiadau i'r Corff Llywodraethu.

Caiff ceisiadau sy'n dod i law rhwng y dyddiadau isod eu prosesu erbyn y dyddiad perthnasol yn eu trefn:

- 1 Hydref a 31 Mawrth erbyn 30<sup>ain</sup> Mehefin bob blwyddyn
- 1 Ebrill a 30 Medi erbyn 31<sup>ain</sup> Rhagfyr bob blwyddyn

Os yw'r Corff Llywodraethu **yn derbyn** i'r gweithiwr neu'r gweithwyr roi tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, byddan nhw'n cadarnhau'r ffaith hon drwy cydlofnodi'r ffurflen, a'i chyflwyno i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, a fydd yn trefnu i'r swydd ddilyn y broses gwerthuso addas. Bydd y gweithiwr yn cwrdd ag un neu ragor o Ddadansoddwyr Swyddi'r Cyngor, fel rhan o'r broses werthuso honno, ac wedyn fe fydd angen llenwi'r holiadur Gwerthuso Swyddi.

Bydd canlyniad y Cam Adolygiad Ffurfiol fel hyn:

- i) Os penderfynir yn sgîl y broses werthuso y dylai cyflog y swydd **gynyddu**, bydd y cynnydd yn weithredol o ddyddiad cyflwyno'r cais. Nodwch: chaiff taliadau'r cynnydd mo'u hôl-ddyddio cyn dyddiad cyflwyno'r cais.
- ii) Os penderfynir yn sgîl y broses werthuso na ddylai cyflog y swydd **gynyddu**, fe ystyrir, tybir, credir, a bernir fod y mater wedi'i gay, a ni chynhelir adolygiad pellach am gyfnod o 12 mis. Bydd cyfle i'r gweithiwr, ac i'r Pennaeth perthnasol, gael cwrdd ag un o gynrychiolwyr y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, ac un o'r Dadansoddwyr Swyddi, er mwyn i'r rhain esbonio pam na fu cynnydd yn y radd.

Os yw'r Corff Llywodraethu **yn peidio â derbyn** i'r cyflogai neu'r cyflogeion roi tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, byddan nhw'n cadarnhau'r ffaith hon drwy gydlofnodi'r ffurflen, a'i chyflwyno i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, a fydd yn trefnu i'r swydd gael ei chyflwyno i'r Panel Adolygu Ailraddiadau.

#### **4. PANEL ADOLYGU CEISIADAU AM AILRADDIO**

Bydd y Panel yn clywed pob un o'r holl achosion o fewn tri mis i ddyddiad cyflwyno'r cais am ailraddio, yn unol â'r amserlenni sydd wedi'u nodi yn y weithdrefn hon.

Un o gynrychiolwyr y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fydd yn cadeirio'r Panel. Bydd y Cadeirydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i bob un o'r holl bartïon sy'n bresennol, a chaiff y cadeirydd ddim bwrw bleidlais. Dau Gyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth, ac un o gynrychiolwyr yr Unedabau Llafur, fydd aelodau eraill y Panel.

Rhaid i ddatganiad achos pob un o'r holl bartïon ddod i law'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ddeng niwrnod o leiaf cyn cyfarfod y Panel Adolygu: y Cyfarwyddwr fydd yn trefnu cyfnewid y dogfennau hyn rhwng y gwahanol bartïon. Cylchredir yr agenda ar gyfer cyfarfod y Panel, ynghyd â phob un o'r holl ddogfennau perthnasol, i bob un o'r holl bartïon, bum niwrnod gwaith cyn cyfarfod y Panel.

Pan mae cynrychiolydd undeb llafur yn cyflwyno'r achos ar ran gweithiwr, caiff y gweithiwr hwnnw fod yn bresennol. Dangosir y weithdrefn ar gyfer clywed y cais am ailraddio yn Atodiad 2.

**Nodwch – Chaiff tystion mo'u galw ar unrhyw gam yn y broses**

## 5. Penderfyniad y Panel Adolygu

Bydd aelodau o'r Panel yn penderfynu'r achos yn breifat, ac yn rhoi gwybod i bob un o'r holl bartïon o fewn deng niwrnod gwaith o'r gwrandawriad.

Os bydd y Panel yn derbyn i'r gweithiwr neu'r gweithwyr roi tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'rcyfrifoldebau, byddan nhw'n cadarnhau'r ffaith hon ac yn gofyn i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol drefnu i'r swydd ddilyn y broses gwerthuso addas. Bydd canlyniad y Cam Adolygiad Ffurfiol fel sydd wedi'i nodi ym Mhwynt 3 uchod.

Caiff y cais ei ystyried wedyn gan ddefnyddio'r weithdrefn sydd wedi'i nodi ym Mhwynt 3 uchod.

Os peidio â chytuno **â'r cais am ailraddio** yw'r penderfyniad, caiff y gweithiwr a'r Corff Llywodraethu wybod na fu'r apêl yn llwyddiannus.

Cytunwyd na chaiff camau gweithredu pellach eu cymryd y tu allan i'r weithdrefn hon mewn perthynas ag adolygu ceisiadau.

Chaiff apêl Cam Adolygiad Ffurfiol bellach mo'i chyflwyno o fewn y cyfnod o 12 mis yn dilyn dyddiad rhoi gwybod am yr apêl aflwyddiannus.

**Cais am Adolygiad Ceisiadau am Ailraddio – STAFF YR YSGOLION**

Rhaid cyflwyno pob cais drwy'ch Corff Llywodraethu.

**MANYLION PERSONOL**

ENW: \_\_\_\_\_

CYFEIRIAD: \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

AELODAETH O UNDEBAU LLAFUR? IE / NAGE

OS IE, PA UNDEB LLAFUR? \_\_\_\_\_

RHIFAU CYFLOGRES: \_\_\_\_\_

**MANYLION Y SWYDD**

TEITL Y SWYDD: \_\_\_\_\_


GRADDFA: \_\_\_\_\_ PENNAETH \_\_\_\_\_

YSGOL: \_\_\_\_\_

**MANYLION Y CAIS**

Amlinellwch dystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd dan sylw (croeso i chi atodi gwybodaeth ychwanegol os oes angen).

**MANYLION Y CAIS (PARHAD)**



Caiff ceisiadau sy'n dod i law rhwng y dyddiadau isod eu prosesu erbyn y dyddiad perthnasol yn eu trefn:



1 Hydref a 31 Mawrth erbyn 30fed Mehefin bob blwyddyn  
1 Ebrill a 30 Medi erbyn 31ain Rhagfyr bob blwyddyn

Cyflwynir y cais hwn fel:

cais gan unigolyn am adolygiad ailraddio (\*)

cais gan grŵp am adolygiad ailraddio: dyma enwau'r aelodau ychwanegol o'r staff sy'n cyflwyno'r cais(\*)

(\*) – ticiwch un blwch yn unig.

**ENWAU AELODAU YCHWANEGOL O'R STAFF**

**LLOFNOD:** \_\_\_\_\_

**DYDDIAD:** \_\_\_\_\_

## CADARNHAD GAN Y CORFF LLYWODRAETHU

Rwy'n cadarnhau fy mod **yn cytuno** i'r gweithiwr/gweithwyr roi tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, ac rwy'n gwneud cais am werthusiad ffurfiol(\*).

Rwy'n cadarnhau nad ydw i **yn cytuno** i'r gweithiwr/gweithwyr roi tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, ac nad ydw i'n gwneud cais am werthusiad ffurfiol (\*).

(\*) – *ticiwch un blwch yn unig.*

LLOFNOD: \_\_\_\_\_

ENW (print bras): \_\_\_\_\_

CADEIRYDD Y  
LLYWODRAETHWYR: \_\_\_\_\_

YSGOL: \_\_\_\_\_

DYDDIAD: \_\_\_\_\_

Llofnodwyd ar ran y Corff Llywodraethu

ATODIAD 2

## **GWEITHDREFN Y PANEL – ADOLYGU CEISIADAU**

1. Y cynrychiolydd undeb llafur, a/neu yr apelydd unigol, a fydd yn gwneud y cyflwyniad cychwynnol.
2. Caiff cynrychiolydd y rheolwyr ofyn cwestiynau yn y lle cyntaf, gydag aelodau o'r Panel yn dilyn.
3. Wedyn, bydd y rheolwyr yn datgan eu hachos.
4. Caiff cynrychiolydd yr undeb llafur ofyn cwestiynau a/neu'r apelydd unigol ofyn cwestiynau, gydag aelodau o'r Panel yn dilyn.
5. Bydd y cynrychiolydd undeb llafur, a/neu yr apelydd unigol, yn crynhoi'u hachos.
6. Bydd y rheolwyr yn crynhoi'u hachos.
7. Bydd pob un o'r holl bartïon yn ymneilltuo o'r cyfarfod.
8. Os oes angen galw parti yn ôl, rhaid i'r ddau barti ddychwelyd, er gwaethaf y ffaith nad oes ond un parti yn ymwneud â'r pwynt sy'n rhoi lle i amheuaeth.
9. Bydd y Panel yn penderfynu'r achos yn breifat, ac yn rhoi gwybod i bob un o'r holl bartïon o fewn deng niwrnod gwaith o'r gwrandawriad.